Medr
Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

This document is also available in English |
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg

## Ystadegau Medr

# Y Gymraeg mewn Addysg Uwch, 2023/24

| | |
|---|---|
| **Cyfeirnod:** | Sta/Medr/17/2025 |
| **Dyddiad:** | 27 Tachwedd 2025 |
| **Dynodiad:** | Ystadegau Swyddogol (gweler newid yn y statws ystadegau achrededig) |
| **E-bost:** | YstadegauAU@medr.cymru |

| | |
|---|---|
| **Crynodeb:** | Ystadegau ar nifer y cofrestriadau lle ceir rhywfaint o astudio yn y Gymraeg a gallu myfyrwyr i siarad Cymraeg mewn darparwyr addysg uwch yng Nghymru.<br><br>Ystadegau ar nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu yn Gymraeg, ac sydd wedi'u contractio i addysgu yn Gymraeg mewn prifysgolion yng Nghymru. |
| **Thema:** | Addysg Uwch, Y Gymraeg, Cyfrwng Cymraeg |
| **Ffynhonnell:** | Cofnodion Myfyrwyr a Staff yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) |

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu yn Saesneg
We welcome correspondence in Welsh and in English
Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi
Corresponding in Welsh will not lead to delays.

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

## Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi rhai o'r tueddiadau allweddol ynglŷn ag astudio yn y Gymraeg a gallu myfyrwyr yn y Gymraeg mewn darparwyr addysg uwch yng Nghymru, ac ar gyfer staff mewn prifysgolion yng Nghymru. Drwy'r adroddiad pan ydym yn cyfeirio at astudio yn Gymraeg, astudio trwy gyfrwng y Gymraeg a olygir gennym yn hytrach nag astudio Cymraeg fel pwnc.

Ffynonellau'r data yw cofnodion Myfyrwyr a Staff yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA).

Mae'r data ar gael mewn taenlen sy'n cyd-fynd â'r adroddiad ar wefan Medr. Mae dadansoddiadau pellach o'r data ar gael ar StatsCymru hefyd.

## Prif bwyntiau

- Yn 2023/24, roedd yn hysbys bod 13% o'r cofrestriadau gan fyfyrwyr o Gymru'n rhai gan siaradwyr Cymraeg rhugl. Roedd 15% pellach yn siaradwyr Cymraeg nad oeddent yn rhugl neu'n siaradwyr Cymraeg â gallu anhysbys.
- Yn 2023/24, fe wnaeth 30% o'r cofrestriadau gan fyfyrwyr o Gymru yr oedd yn hysbys eu bod yn siaradwyr Cymraeg rhugl astudio o leiaf 1 credyd yn Gymraeg, ac fe wnaeth 21% astudio o leiaf 40 o gredydau yn Gymraeg. Mae'r cyfrannau hyn wedi bod ar yr un lefelau fwy neu lai ers 2017/18.
- Roedd 4% o'r cofrestriadau gan yr holl fyfyrwyr, gan gynnwys y rhai nad ydynt o Gymru ac nad yw'n hysbys eu bod yn siaradwyr Cymraeg, yn cynnwys astudio o leiaf 1 credyd yn Gymraeg yn 2023/24.
- Fe wnaeth nifer y cofrestriadau gan yr holl fyfyrwyr ag o leiaf 1 credyd a astudiwyd yn Gymraeg yn 2023/24 ostwng 19% o'i gymharu â 2022/23, a dyma oedd y nifer isaf yn y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, mae un o'r ffactor arwyddocaol yn y gostyngiad hwn yn gysylltiedig â newid yn sut y mae faint o astudio a wneir yn Gymraeg yn cael ei gyfrifo mewn rhai darparwyr yn hytrach na newid go iawn yn yr hyn a ddarparwyd.
- Roedd mwy na dwywaith cymaint o gofrestriadau gan fyfyrwyr benywaidd lle cafodd o leiaf 1 credyd ei astudio yn Gymraeg o'i gymharu â chofrestriadau gan fyfyrwyr gwrywaidd. O'r cofrestriadau ag o leiaf 1 credyd wedi cael ei astudio yn Gymraeg, roedd myfyrwyr benywaidd hefyd yn fwy tebygol o astudio nifer uwch o gredydau yn Gymraeg na myfyrwyr gwrywaidd.
- Addysg a hyfforddiant oedd y pwnc modiwl â'r nifer a'r gyfran uchaf o gofrestriadau ag o leiaf 1 credyd wedi cael ei astudio yn Gymraeg.
- Roedd 565 o staff addysgu academaidd wedi'u contractio i addysgu yn Gymraeg yn 2023/24, yr un nifer ag yn 2022/23.

# Cynnwys

Cyflwyniad ........ 1
Prif bwyntiau ........ 1
Adran A: Cofrestriadau'n astudio yn y Gymraeg ........ 3
Adran B: Astudio yn Gymraeg yn ôl pwnc y modiwl ........ 9
Adran C: Gallu myfyrwyr i siarad Cymraeg ........ 11
Adran D: Staff ........ 17
Gwybodaeth am ansawdd a methodoleg ........ 21
- Datganiad cydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau ........ 21
- Newid yn y statws ystadegau achrededig ........ 21
- Ystadegau cysylltiedig ........ 22
- Gwybodaeth gyswllt ........ 22

## Adran A: Cofrestriadau'n astudio yn y Gymraeg

Mae'r adran hon yn bwrw golwg ar nifer y credydau a astudiwyd yn y Gymraeg gan bob cofrestriad mewn darparwyr addysg uwch yng Nghymru.

Caiff nifer y credydau a astudiwyd yn Gymraeg ar gyfer pob cofrestriad ei gyfrifo fesul modiwl unigol. Er enghraifft, os cafodd hanner modiwl 20 credyd ei astudio yn Gymraeg, byddai hynny'n cael ei gyfrif fel astudio 10 credyd yn Gymraeg. Mae cyfanswm nifer y credydau a astudiwyd yn Gymraeg ar gyfer pob cofrestriad yn golygu'r cyfanswm ar draws pob modiwl. Caiff modiwlau eu cyfrif yn y blynyddoedd academaidd y maent yn weithredol ynddynt; os yw modiwl yn dechrau mewn un flwyddyn academaidd ac yn gorffen yn y nesaf yna fe'i cyfrifir yn y ddwy flynedd academaidd.

Y categorïau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn ar gyfer nifer y credydau a astudiwyd yn Gymraeg yw: 'o leiaf 1 credyd', 'o leiaf 5 credyd', 'o leiaf 40 o gredydau', 'o leiaf 80 o gredydau' ac 'o leiaf 120 o gredydau'. Mae'r categorïau hyn yn gorgyffwrdd, er enghraifft mae rhywun sydd wedi astudio o leiaf 40 o gredydau yn Gymraeg hefyd yn cael ei gynnwys fel rhywun sydd wedi astudio o leiaf 5 credyd yn Gymraeg.

**Tabl A.1: Nifer y cofrestriadau yn ôl nifer y credydau a astudiwyd yn Gymraeg, 2018/19 i 2023/24**

| Cofrestriadau | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| O leiaf 1 credyd yn Gymraeg | 6,165 | 5,800 | 7,170 | 7,010 | 6,825 | 5,535 |
| O leiaf 5 credyd yn Gymraeg | 5,900 | 5,020 | 6,015 | 6,070 | 5,160 | 4,555 |
| O leiaf 40 o gredydau yn Gymraeg | 2,720 | 2,670 | 2,825 | 2,765 | 2,445 | 2,390 |
| O leiaf 80 o gredydau yn Gymraeg | 1,410 | 1,485 | 1,530 | 1,390 | 1,295 | 1,170 |
| O leiaf 120 o gredydau yn Gymraeg | 740 | 815 | 895 | 835 | 695 | 700 |
| Llai nag 1 credyd yn Gymraeg | 126,035 | 130,555 | 137,995 | 142,040 | 147,560 | 145,140 |
| **Pob cofrestriad** | **132,205** | **136,355** | **145,170** | **149,045** | **154,385** | **150,680** |

Disgrifiad: Fe ostyngodd nifer y cofrestriadau a astudiodd yn Gymraeg yn 2023/24 o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol, yn enwedig ymhlith y rhai a astudiodd niferoedd llai o gredydau yn Gymraeg.


Data yn Nhabl 2a y llyfr gwaith sy'n cyd-fynd â'r adroddiad ac ar StatsCymru

- Fe ostyngodd nifer y cofrestriadau ag o leiaf 1 credyd wedi cael ei astudio yn Gymraeg 19% rhwng 2022/23 a 2023/24. Fodd bynnag, mae'r gostyngiad hwn yn debygol o fod yn fwy cysylltiedig â newidiadau o ran sut y cofnodir y data hwn na newidiadau go iawn yn nifer y cofrestriadau a astudiodd o leiaf 1 credyd yn Gymraeg. Roedd y mwyafrif o'r gostyngiad hwn ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant lle bu newidiadau o ran sut y caiff y gyfran a astudiwyd trwy gyfrwng y Gymraeg ei chyfrifo, sy'n effeithio'n bennaf ar fodiwlau lle darparwyd deunyddiau astudio yn ddwyieithog.

- Bu gostyngiadau hefyd yn nifer y cofrestriadau â niferoedd uwch o gredydau wedi cael eu hastudio yn Gymraeg yn 2023/24, ar wahân i'r rhai a astudiodd o leiaf 120 o gredydau yn Gymraeg a oedd ychydig yn uwch yn 2023/24 na 2022/23 ond yn is nag mewn blynyddoedd cynharach.

- Yn ogystal â newidiadau gwirioneddol yn nifer y credydau a astudiwyd yn Gymraeg, effeithir ar y ffigyrau hyn hefyd gan sut y mae darparwyr yn cofnodi eu darpariaeth. Mae'n hysbys bod anghysonderau rhwng darparwyr o ran sut y maent yn dychwelyd data ar fodiwlau cyfrwng Cymraeg ar gofnod Myfyrwyr HESA, o ran sut y caiff modiwlau cyfrwng Cymraeg eu hadnabod ac o ran sut y caiff canrannau a addysgir trwy gyfrwng y Gymraeg eu cyfrifo. Mae Medr a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol wedi bod yn gweithio gyda darparwyr i wella cysondeb data yn hyn o beth sydd wedi lleihau nifer y cofrestriadau a ddychwelir fel rhai sy'n astudio niferoedd is o gredydau yn Gymraeg.

**Ffigur A.1: Canran y cofrestriadau yn ôl nifer y credydau a astudiwyd yn Gymraeg, 2018/19 i 2023/24**




Disgrifiad: Mae canran y cofrestriadau a astudiodd o leiaf 1, neu o leiaf 5 credyd, trwy gyfrwng y Gymraeg wedi gostwng yn 2023/24. Mae'r canrannau a astudiodd nifer uwch o gredydau yn Gymraeg wedi bod yn fwy sefydlog, er eu bod wedi gostwng ychydig yn y blynyddoedd diwethaf.

Data yn Nhabl 2b y llyfr gwaith sy'n cyd-fynd â'r adroddiad


- Fe ostyngodd cyfran y cofrestriadau lle astudiwyd o leiaf 1 credyd yn Gymraeg islaw 4% yn 2023/24. Hon oedd y ganran isaf yn y blynyddoedd diwethaf; fodd bynnag, fel a grybwyllwyd ar y dudalen flaenorol, mae newidiadau o ran sut y mae darparwyr yn amcangyfrif y gyfran o fodiwl a astudiwyd yn Gymraeg wedi cael effaith sylweddol ar gofnodi cofrestriadau â nifer fach o gredydau yn Gymraeg.

- Mae'r gyfran a astudiodd o leiaf 5 credyd yn Gymraeg wedi gostwng hefyd i'w chanran isaf yn y blynyddoedd diwethaf gyda 3% o gofrestriadau wedi astudio o leiaf 5 credyd yn Gymraeg.

- Roedd canran y cofrestriadau a astudiodd o leiaf 40 ac o leiaf 80 o gredydau yn Gymraeg yn 2023/24 yn debyg i 2022/23 ar ôl gostyngiadau bychain o'i gymharu â blynyddoedd cynharach.

- Mae cyfran y cofrestriadau ag o leiaf 120 o gredydau wedi cael eu hastudio yn Gymraeg wedi bod yn gyson ar yr un lefel rhwng 2018/19 a 2023/24.

**Ffigur A.2: Nifer y cofrestriadau ag o leiaf 1 credyd wedi cael ei astudio yn Gymraeg yn ôl lefel a dull astudio, 2018/19 i 2023/24**




Disgrifiad: Fe ostyngodd nifer y cofrestriadau israddedig amser llawn ag o leiaf 1 credyd wedi cael ei astudio yn Gymraeg yn sylweddol yn 2023/24 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Data yn Nhabl 1 y llyfr gwaith sy'n cyd-fynd â'r adroddiad ac ar StatsCymru

- Roedd nifer y cofrestriadau israddedig amser llawn a astudiodd o leiaf 1 credyd yn Gymraeg yn 2023/24 26% yn is nag yn 2022/23.

- Fe ostyngodd nifer y cofrestriadau ôl-radd amser llawn a astudiodd o leiaf 1 credyd yn Gymraeg 26% yn 2023/24 o'r flwyddyn flaenorol.

- Roedd codiadau yn nifer y cofrestriadau rhan-amser a astudiodd o leiaf 1 credyd yn Gymraeg ar y lefel israddedig (7%) a'r lefel ôl-radd (28%) yn 2023/24 o'i gymharu â 2022/23. Mae nifer y cofrestriadau ôl-radd rhan-amser a astudiodd o leiaf 1 credyd cyfrwng Cymraeg wedi mwy na threblu o'i gymharu â 2018/19.

**Tabl A.2: Nifer y cofrestriadau ym mhob darparwr yn ôl nifer y credydau a astudiwyd yn Gymraeg, 2023/24**

| | O leiaf 1 credyd yn Gymraeg | O leiaf 5 credyd yn Gymraeg | O leiaf 40 o gredydau yn Gymraeg | O leiaf 80 o gredydau yn Gymraeg | O leiaf 120 o gredydau yn Gymraeg | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Prifysgolion** | **5,160** | **4,180** | **2,100** | **1,060** | **640** | **148,605** |
| Prifysgol Aberystwyth | 370 | 370 | 280 | 135 | 45 | 8,320 |
| Prifysgol Bangor | 965 | 950 | 680 | 425 | 245 | 10,835 |
| Prifysgol Metropolitan Caerdydd | 300 | 300 | 275 | 180 | 150 | 11,445 |
| Prifysgol Caerdydd | 530 | 525 | 290 | 115 | 40 | 33,020 |
| Y Brifysgol Agored | 415 | 175 | 60 | 15 | 0 | 15,445 |
| Prifysgol Abertawe | 610 | 545 | 180 | 25 | 15 | 21,225 |
| Prifysgol De Cymru | 125 | 125 | 30 | 10 | 10 | 23,670 |
| Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant | 1,750 | 1,100 | 300 | 160 | 130 | 15,660 |
| Prifysgol Wrecsam | 95 | 95 | 5 | 0 | 0 | 8,990 |
| **Colegau addysg bellach a darparwyr amgen** | **375** | **375** | **290** | **110** | **60** | **2,070** |
| Coleg Caerdydd a'r Fro | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 65 |
| Y Ganolfan Technoleg Amgen | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 525 |
| Coleg Cambria | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 25 |
| Coleg Gwent | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 105 |
| Coleg Gŵyr Abertawe | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 30 |
| Grŵp Llandrillo Menai | 375 | 375 | 290 | 110 | 60 | 830 |
| Grŵp NPTC Group | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 185 |
| Athrofa Padarn Sant | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 210 |
| Ysgol Ddiwinyddiaeth Union | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 95 |
| **Pob darparwr** | **5,535** | **4,555** | **2,390** | **1,170** | **700** | **150,680** |

Disgrifiad: Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant oedd â'r nifer uchaf o gofrestriadau ag o leiaf 1 credyd wedi cael ei astudio yn Gymraeg yn 2023/24. Prifysgol Bangor oedd â'r nifer uchaf o gofrestriadau ag o leiaf 40 o gredydau wedi cael eu hastudio yn Gymraeg.

Data yn Nhabl 3a y llyfr gwaith sy'n cyd-fynd â'r adroddiad ac ar [StatsCymru]

- Ac eithrio Grŵp Llandrillo Menai, ni ddychwelwyd unrhyw gofrestriadau i gofnod Myfyrwyr HESA gan golegau addysg bellach a darparwyr amgen fel rhai a astudiodd unrhyw gredydau yn Gymraeg. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu nad oes gan y darparwyr hyn unrhyw ddarpariaeth AU yn Gymraeg gan mai dim ond rhai o'u cyrsiau sy'n cael eu cynnwys yng nghofnod Myfyrwyr HESA gydag eraill sydd dan drefniadau breinio o brifysgolion yn cael eu dychwelyd gan y partner sy'n brifysgol.

**Tabl A.3: Cyfran y cofrestriadau ym mhob darparwr yn ôl nifer y credydau a astudiwyd yn Gymraeg, 2023/24**

| | O leiaf 1 credyd yn Gymraeg | O leiaf 5 credyd yn Gymraeg | O leiaf 40 o gredydau yn Gymraeg | O leiaf 80 o gredydau yn Gymraeg | O leiaf 120 o gredydau yn Gymraeg |
|---|---|---|---|---|---|
| **Prifysgolion** | 3% | 3% | 1% | 1% | 0% |
| Prifysgol Aberystwyth | 4% | 4% | 3% | 2% | 1% |
| Prifysgol Bangor | 9% | 9% | 6% | 4% | 2% |
| Prifysgol Metropolitan Caerdydd | 3% | 3% | 2% | 2% | 1% |
| Prifysgol Caerdydd | 2% | 2% | 1% | 0% | 0% |
| Y Brifysgol Agored | 3% | 1% | 0% | 0% | 0% |
| Prifysgol Abertawe | 3% | 3% | 1% | 0% | 0% |
| Prifysgol De Cymru | 1% | 1% | 0% | 0% | 0% |
| Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant | 11% | 7% | 2% | 1% | 1% |
| Prifysgol Wrecsam | 1% | 1% | 0% | 0% | 0% |
| **Colegau addysg bellach a darparwyr amgen** | 18% | 18% | 14% | 5% | 3% |
| Coleg Caerdydd a'r Fro | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| Y Ganolfan Technoleg Amgen | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| Coleg Cambria | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| Coleg Gwent | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| Coleg Gŵyr Abertawe | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| Grŵp Llandrillo Menai | 45% | 45% | 35% | 13% | 7% |
| Grŵp NPTC Group | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| Athrofa Padarn Sant | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| Ysgol Ddiwinyddiaeth Union | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| **Pob darparwr** | 4% | 3% | 2% | 1% | 0% |

Disgrifiad: Tabl sy’n dangos bod gan y mwyafrif o ddarparwyr gyfran debyg, neu is, o gofrestriadau ag o leiaf 1 credyd wedi cael ei astudio yn Gymraeg na’r gyfran ar y cyfan.

Data yn Nhabl 3b y llyfr gwaith sy’n cyd-fynd â’r adroddiad


- Y darparwyr â’r cyfrannau uchaf o gofrestriadau a astudiodd o leiaf 1 credyd yn Gymraeg oedd Grŵp Llandrillo Menai (45%), Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (11%) a Phrifysgol Bangor (9%).

- Roedd bron hanner (49%) y cofrestriadau ag o leiaf 1 credyd yn Gymraeg ar draws y sector ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant neu Brifysgol Bangor.

- Ar gyfer yr holl ddarparwyr eraill fe wnaeth ar y mwyaf 4% o gofrestriadau astudio o leiaf 1 credyd yn Gymraeg. Prifysgol De Cymru a Phrifysgol Wrecsam oedd â’r gyfran isaf, gydag 1% o gofrestriadau wedi astudio yn Gymraeg yn y naill a’r llall, yr isaf ymhlith prifysgolion Cymru.

- Grŵp Llandrillo Menai oedd â'r gyfran fwyaf o gofrestriadau a astudiodd o leiaf 5 credyd yn Gymraeg gyda Phrifysgol Bangor yn dilyn wedyn. Felly yr oedd hi hefyd ar gyfer y categorïau o leiaf 40, 80 a 120 o gredydau.

**Ffigur A.3: Nifer y cofrestriadau a astudiodd o leiaf 1 credyd yn Gymraeg yn ôl rhyw, 2023/24**




Disgrifiad: Yn 2023/24 roedd nifer y cofrestriadau gan fyfyrwyr benywaidd a astudiodd o leiaf 1 credyd yn Gymraeg yn fwy na dwbl y nifer ar gyfer myfyrwyr gwrywaidd.

Data yn Nhabl 4 y llyfr gwaith sy'n cyd-fynd â'r adroddiad ac ar StatsCymru

- O'r cofrestriadau ag o leiaf 1 credyd yn Gymraeg, roedd myfyrwyr benywaidd yn fwy tebygol o fod wedi astudio nifer fwy o gredydau yn Gymraeg. Fe wnaeth 23% o fyfyrwyr benywaidd a astudiodd unrhyw gredydau yn Gymraeg o leiaf 80 o gredydau yn Gymraeg o'i gymharu ag 16% o fyfyrwyr gwrywaidd.

## Adran B: Astudio yn Gymraeg yn ôl pwnc y modiwl

Mae'r adran hon yn darparu gwybodaeth am ba bynciau a astudiwyd yn Gymraeg. Y pynciau a ddefnyddiwyd yw'r grwpiadau pynciau yn lefel 1 Hierarchaeth Cydgasglu Cyffredin HESA.

Mae'r pynciau a astudiwyd wedi cael eu cyfrifo fesul modiwl unigol gan bod y data ar astudio yn Gymraeg yn cael ei gasglu fesul modiwl yn hytrach na fesul cwrs. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu nad yw nifer y cofrestriadau ym mhob pwnc yn cyd-fynd â'r rhai a gyhoeddwyd mewn mannau eraill megis Data Agored HESA sy'n defnyddio pwnc y cwrs ar y cyfan.

Gall cofrestriad gynnwys modiwlau mewn pynciau lluosog, a gallai modiwl unigol fod â phynciau lluosog. Gall unrhyw gyfuniad o bynciau a modiwlau fod â pheth addysgu yn Gymraeg. Caiff y ffigwr cyfwerth â pherson llawn (FPE) ar gyfer pob cofrestriad ei rannu ar draws pynciau'r modiwlau y maent yn eu hastudio. Golyga hyn nad yw'n bosibl adrodd am niferoedd pynciau fel eu bod yn gyson â'r cyfansymiau mewn mannau eraill yn yr adroddiad hwn gan hefyd ddarparu canrannau cywir o gofrestriadau a astudiodd bwnc yn Gymraeg. Rydym wedi dewis gwneud y canrannau'n gywir yma.

Er enghraifft, os oedd hanner modiwlau cofrestriad yn fodiwlau cyfrifiadura, a hanner yn fodiwlau yn y gyfraith, byddent yn cael eu cyfrif fel 0.5 FPE yn astudio cyfrifiadura a 0.5 FPE yn astudio'r gyfraith. Pe bai'r cofrestriad yn cynnwys o leiaf 1 credyd o'r modiwlau Cyfrifiadura yn Gymraeg, ond llai nag un credyd o fodiwlau'r gyfraith yn Gymraeg yna byddai'r cofrestriad yn ymddangos yn yr adran hon fel:

| Pwnc | Cofrestriadau (FPE) yn astudio o leiaf 1 credyd yn Gymraeg | Pob Cofrestriad (FPE) |
|---|---|---|
| Cyfrifiadura | 0.5 | 0.5 |
| Y Gyfraith | 0.0 | 0.5 |

Fodd bynnag, yn yr adran flaenorol byddai'r cofrestriad hwn yn cael ei gyfrif fel bod 1 FPE wedi astudio o leiaf 1 credyd yn Gymraeg gan olygu bod nifer y cofrestriadau ag o leiaf 1 credyd yn Gymraeg yn is yn yr adran hon.

O 2022/23 ymlaen, roedd gwybodaeth am fodiwlau'n ddewisol ar gyfer cofrestriadau ymchwil ôl-radd. Ar gyfer y cofrestriadau hyn mae pynciau eu cwrs ar y cyfan wedi cael eu defnyddio yn lle hynny. Nid yw hyn yn wahaniaeth arwyddocaol o sut y cyfrifwyd hyn mewn blynyddoedd cynharach gan bod yr wybodaeth am fodiwlau a ddarparwyd ar gyfer cofrestriadau ymchwil ôl-radd mewn blynyddoedd cynharach yn aml yn cael ei darparu gan ddefnyddio modiwlau ffug a gafodd eu codio â'r un pwnc â'r cwrs.

**Tabl B.1: Nifer y cofrestriadau ag o leiaf 1 credyd wedi cael ei astudio yn Gymraeg yn ôl pwnc y modiwl, 2023/24**

| Pwnc | Cofrestriadau ag o leiaf 1 credyd yn Gymraeg | Pob Cofrestriad | Canran ag o leiaf 1 credyd yn Gymraeg |
|---|---|---|---|
| Meddygaeth a deintyddiaeth | 275 | 4,355 | 6% |
| Pynciau sy'n berthynol i feddygaeth | 615 | 16,190 | 4% |
| Gwyddorau biolegol a chwaraeon | 220 | 10,665 | 2% |
| Seicoleg | 85 | 8,455 | 1% |
| Gwyddorau milfeddygol | 0 | 120 | 0% |
| Amaethyddiaeth, bwyd ac astudiaethau cysylltiedig | 60 | 980 | 6% |
| Gwyddorau ffisegol | 25 | 3,520 | 1% |
| Gwyddorau mathemategol | 40 | 2,780 | 1% |
| Peirianneg a thechnoleg | 80 | 9,015 | 1% |
| Cyfrifiadura | 30 | 9,045 | 0% |
| Pensaernïaeth, adeiladu a chynllunio | 40 | 2,420 | 2% |
| Gwyddorau cymdeithasol | 755 | 15,460 | 5% |
| Y Gyfraith | 170 | 8,860 | 2% |
| Busnes a rheoli | 110 | 23,750 | 0% |
| Astudiaethau iaith ac ardal | 385 | 6,130 | 6% |
| Astudiaethau hanesyddol, athronyddol a chrefyddol | 65 | 4,210 | 2% |
| Addysg ac addysgu | 1,245 | 7,635 | 16% |
| Astudiaethau cyfunol a chyffredinol | 125 | 2,780 | 4% |
| Y cyfryngau, newyddiaduraeth a chyfathrebu | 60 | 2,420 | 2% |
| Dylunio, a'r celfyddydau creadigol a pherfformio | 815 | 6,340 | 13% |
| Daearyddiaeth, astudiaethau'r ddaear ac astudiaethau amgylcheddol | 40 | 3,640 | 1% |
| **Pob un** | **5,235** | **150,680** | **3%** |

Disgrifiad: Addysg ac addysgu, a Dylunio, a'r celfyddydau creadigol a pherfformio oedd y pynciau â'r niferoedd a'r cyfrannau uchaf o gofrestriadau ag o leiaf 1 credyd wedi cael ei astudio yn Gymraeg.

Data yn Nhabl 5 y llyfr gwaith sy'n cyd-fynd â'r adroddiad ac ar StatsCymru

- Addysg ac addysgu oedd y pwnc modiwl â'r nifer uchaf (1,245) a'r gyfran uchaf (16%) o gofrestriadau a astudiodd o leiaf 1 credyd yn Gymraeg. Mae Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (375 o gofrestriadau) a'r Brifysgol Agored (295 o gofrestriadau) yn rhoi cyfrif am ychydig dros hanner y 1,245 o gofrestriadau.

- Roedd bron chwarter (24%) yr holl gofrestriadau ag o leiaf 1 credyd wedi cael ei astudio yn Gymraeg yn gofrestriadau gan y rhai a astudiodd fodiwlau addysg ac addysgu.

- Dylunio, a'r celfyddydau creadigol a pherfformio oedd y pwnc â'r nifer ail uchaf (815) a'r gyfran ail uchaf (13%) o gofrestriadau ag o leiaf 1 credyd wedi cael ei astudio yn Gymraeg. O'r 815 o gofrestriadau hyn, roedd 705 ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.

## Adran C: Gallu myfyrwyr i siarad Cymraeg

Mae'r adran hon yn darparu gwybodaeth am allu myfyrwyr a oedd yn byw fel arfer yng Nghymru cyn eu hastudiaethau i siarad Cymraeg. Dim ond myfyrwyr a oedd yn byw fel arfer yng Nghymru cyn eu hastudiaethau y mae'r data yma'n eu hystyried gan mai dim ond ar gyfer y myfyrwyr hyn y mae gwybodaeth am allu yn y Gymraeg yn ofynnol yng nghofnod Myfyrwyr HESA.

Fe wnaeth y modd y cesglir data am allu yn y Gymraeg newid yn sylweddol yn 2022/23. Mewn blynyddoedd blaenorol roedd myfyrwyr yn cael eu categoreiddio fel siaradwyr Cymraeg rhugl, siaradwyr Cymraeg nad ydynt yn rhugl, ddim yn siaradwr Cymraeg neu anhysbys. Yn 2022/23 fe gafodd categorïau ychwanegol eu cynnwys i ddarparu rhagor o fanylion am y siaradwyr Cymraeg nad ydynt yn rhugl trwy ddisodli'r categori hwnnw â'r canlynol:

- Siaradwr Cymraeg: yn gallu siarad cryn dipyn
- Siaradwr Cymraeg: yn gallu siarad ychydig yn unig
- Siaradwr Cymraeg: yn gallu dweud ychydig o eiriau
- Siaradwr Cymraeg: lefel hyfedredd anhysbys

O ganlyniad i'r newidiadau hyn ni ellir cymharu'r data'n union â gallu yn y Gymraeg a gasglwyd mewn blynyddoedd cynharach. Er enghraifft, gall rhywun a ddychwelwyd fel rhywun sydd ddim yn siaradwr Cymraeg yn 2021/22 gael ei ddychwelyd fel 'Siaradwr Cymraeg: yn gallu dweud ychydig o eiriau' yn 2022/23.

Roedd rhai problemau ansawdd data gyda data 2022/23 hefyd o ganlyniad i'r strwythur casglu data newydd. Mae ansawdd y data wedi gwella yn 2023/24, er bod rhai problemau sy'n weddill i'w nodi:

- Mae gan y Brifysgol Agored gyfran uchel o fyfyrwyr â gallu anhysbys yn y Gymraeg. Felly yr oedd hi mewn blynyddoedd blaenorol hefyd, er nad yw wedi bod yn bosibl gwahaniaethu rhwng myfyrwyr sydd ddim yn siarad Cymraeg a'r rhai y mae eu gallu yn y Gymraeg yn anhysbys ers y newidiadau i'r modd y cesglir y data.

- Yn 2022/23, roedd gan Brifysgol De Cymru ganran uchel o fyfyrwyr a ddychwelwyd fel siaradwyr Cymraeg â gallu anhysbys. Nid felly yr oedd hi mwyach yn 2023/24 gan olygu bod canran y myfyrwyr sy'n siaradwyr Cymraeg yn debycach i'r hyn a ddychwelwyd cyn 2022/23. Fodd bynnag, ceir bellach nifer sylweddol o fyfyrwyr â gallu anhysbys yn y Gymraeg. Mae hyn yn gysylltiedig â phroblem gyda'r meddalwedd sy'n golygu, yng nghofnod Myfyrwyr HESA, bod rhai myfyrwyr â data anghyson sy'n golygu na allwn fod yn sicr i ba gategori y maent yn perthyn. Disgwylir i'r broblem hon gael ei gwella mewn casgliadau data yn y dyfodol.

- I chwe darparwr, 2023/24 oedd y flwyddyn gyntaf iddynt gyflwyno data i gofnod Myfyrwyr HESA. Y darparwyr hyn oedd:

    - Coleg Caerdydd a'r Fro
    - Y Ganolfan Technoleg Amgen
    - Coleg Cambria
    - Coleg Gwent
    - Athrofa Padarn Sant
    - Ysgol Ddiwinyddiaeth Union

  Cafodd bron yr holl fyfyrwyr yn y Ganolfan Technoleg Amgen eu cofnodi fel rhai â gallu anhysbys yn y Gymraeg. Y rheswm dros hyn oedd nad oedd y Ganolfan Technoleg Amgen yn meddu ar yr wybodaeth hon ar gyfer eu holl fyfyrwyr gan nad oedd gofyniad i'w chasglu'n flaenorol. Disgwylir y bydd hyn yn gwella mewn blynyddoedd yn y dyfodol wrth i'r Ganolfan Technoleg Amgen gasglu'r data yma gan ei myfyrwyr.

  Roedd gan Ysgol Ddiwinyddiaeth Union wybodaeth gyfyngedig am allu i siarad Cymraeg hefyd oherwydd y nifer fach o fyfyrwyr yr oedd yn hysbys eu bod yn hanu o Gymru. Fodd bynnag, nid oedd yn hysbys o ba wlad yr oedd 55 o'r 95 o fyfyrwyr yn y darparwr hwn yn hanu. Gan nad oes gan y darparwr hwn unrhyw gyrsiau a ddynodwyd yn benodol yn 2024/25 ni fydd yn ymddangos mewn cyhoeddiadau yn y dyfodol.

**Tabl C.1: Nifer y cofrestriadau gan fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru yn ôl gallu i siarad Cymraeg a darparwr, 2023/24**

| | Siaradwr Cymraeg: rhugl | Siaradwr Cymraeg: nad yw'n rhugl | Siaradwr Cymraeg: gallu anhysbys | Ddim yn siaradwr Cymraeg | Anhysbys | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Prifysgolion** | **8,775** | **8,635** | **1,185** | **31,325** | **17,600** | **67,520** |
| Prifysgol Aberystwyth | 860 | 795 | 185 | 980 | 10 | 2,830 |
| Prifysgol Bangor | 1,265 | 505 | 0 | 1,910 | 20 | 3,705 |
| Prifysgol Metropolitan Caerdydd | 815 | 550 | 250 | 3,995 | 90 | 5,700 |
| Prifysgol Caerdydd | 1,655 | 1,760 | 0 | 6,850 | 215 | 10,480 |
| Y Brifysgol Agored yng Nghymru | 775 | 1,580 | 0 | 0 | 13,090 | 15,440 |
| Prifysgol Abertawe | 1,155 | 925 | 0 | 6,235 | 45 | 8,360 |
| Prifysgol De Cymru | 990 | 1,320 | 215 | 3,860 | 4,085 | 10,475 |
| Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant | 880 | 805 | 515 | 4,460 | 40 | 6,705 |
| Prifysgol Wrecsam | 380 | 390 | 15 | 3,030 | 10 | 3,825 |
| **Colegau addysg bellach a darparwyr amgen** | **285** | **255** | **55** | **740** | **85** | **1,420** |
| Coleg Caerdydd a'r Fro | 0 | 5 | 0 | 55 | 0 | 65 |
| Y Ganolfan Technoleg Amgen | 0 | 0 | 0 | 0 | 70 | 75 |
| Coleg Cambria | 0 | 0 | 0 | 25 | 0 | 25 |
| Coleg Gwent | 5 | 25 | 0 | 80 | 0 | 105 |
| Coleg Gŵyr Abertawe | 5 | 10 | 0 | 15 | 0 | 30 |
| Grŵp Llandrillo Menai | 255 | 170 | 55 | 295 | 5 | 785 |
| Grŵp NPTC Group | 10 | 15 | 0 | 155 | 0 | 185 |
| Athrofa Padarn Sant | 5 | 25 | 0 | 115 | 5 | 145 |
| Ysgol Ddiwinyddiaeth Union | 0 | 10 | 0 | 0 | 0 | 10 |
| **Pob darparwr** | **9,060** | **8,890** | **1,240** | **32,070** | **17,685** | **68,940** |

Disgrifiad: Roedd nifer debyg o gofrestriadau o blith siaradwyr Cymraeg rhugl hysbys a siaradwyr Cymraeg nad ydynt yn rhugl ar draws y sector gydag oddeutu 9,000 o gofrestriadau yr un yn 2023/24. Roedd 1,240 o gofrestriadau pellach gan siaradwyr Cymraeg yr oedd eu gallu'n anhysbys.

Data yn Nhabl 6a y llyfr gwaith sy'n cyd-fynd â'r adroddiad ac ar StatsCymru

- Prifysgol Caerdydd oedd â'r nifer uchaf o gofrestriadau (1,655) gan fyfyrwyr yr oedd yn hysbys eu bod yn siaradwyr Cymraeg rhugl. Prifysgol Bangor (1,265) a Phrifysgol Abertawe (1,155) oedd â'r niferoedd uchaf nesaf o gofrestriadau gan siaradwyr Cymraeg rhugl.

- Prifysgol Caerdydd hefyd oedd â'r nifer uchaf o gofrestriadau (3,415) gan fyfyrwyr sy'n siarad Cymraeg ag unrhyw allu. Yn dilyn wedyn roedd Prifysgol De Cymru (2,525) a'r Brifysgol Agored yng Nghymru (2,350).

**Tabl C.2: Canran y cofrestriadau gan fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru yn ôl gallu i siarad Cymraeg a darparwr, 2023/24**

| | Siaradwr Cymraeg: rhugl | Siaradwr Cymraeg: nad yw'n rhugl | Siaradwr Cymraeg: gallu anhysbys | Ddim yn siaradwr Cymraeg | Anhysbys |
|---|---|---|---|---|---|
| **Prifysgolion** | **13%** | **13%** | **2%** | **46%** | **26%** |
| Prifysgol Aberystwyth | 30% | 28% | 6% | 35% | 0% |
| Prifysgol Bangor | 34% | 14% | 0% | 52% | 1% |
| Prifysgol Metropolitan Caerdydd | 14% | 10% | 4% | 70% | 2% |
| Prifysgol Caerdydd | 16% | 17% | 0% | 65% | 2% |
| Y Brifysgol Agored yng Nghymru | 5% | 10% | 0% | 0% | 85% |
| Prifysgol Abertawe | 14% | 11% | 0% | 75% | 1% |
| Prifysgol De Cymru | 9% | 13% | 2% | 37% | 39% |
| Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant | 13% | 12% | 8% | 67% | 1% |
| Prifysgol Wrecsam | 10% | 10% | 0% | 79% | 0% |
| **Colegau addysg bellach a darparwyr amgen** | **20%** | **18%** | **4%** | **52%** | **6%** |
| Coleg Caerdydd a'r Fro | 2% | 6% | 0% | 90% | 2% |
| Y Ganolfan Technoleg Amgen | 0% | 0% | 0% | 1% | 99% |
| Coleg Cambria | 0% | 0% | 0% | 100% | 0% |
| Coleg Gwent | 3% | 22% | 0% | 75% | 0% |
| Coleg Gŵyr Abertawe | 19% | 29% | 0% | 52% | 0% |
| Grŵp Llandrillo Menai | 33% | 22% | 7% | 38% | 1% |
| Grŵp NPTC Group | 5% | 9% | 0% | 86% | 0% |
| Athrofa Padarn Sant | 3% | 17% | 0% | 77% | 3% |
| Ysgol Ddiwinyddiaeth Union | Wedi'u celu gan bod llai na 22.5 o gofrestriadau i gyd. | | | | |
| **Pob darparwr** | **13%** | **13%** | **2%** | **47%** | **26%** |

Disgrifiad: Mae'n hysbys bod 13% o fyfyrwyr yn siaradwyr Cymraeg rhugl, ac mae'n hysbys bod 13% arall yn siaradwyr Cymraeg nad ydynt yn rhugl. Cafodd 2% o fyfyrwyr yn ychwanegol eu cofnodi fel siaradwyr Cymraeg ond roedd lefel eu gallu yn anhysbys.


Data yn Nhabl 6b y llyfr gwaith sy'n cyd-fynd â'r adroddiad ac ar StatsCymru

- Prifysgol Bangor (34%), Grŵp Llandrillo Menai (33%) a Phrifysgol Aberystwyth (30%) oedd â'r cyfrannau uchaf o fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru yr oedd yn hysbys eu bod yn siaradwyr Cymraeg rhugl.

- Roedd bron dwy ran o dair (64%) o fyfyrwyr ym Mhrifysgol Aberystwyth yn siaradwyr Cymraeg ag unrhyw allu, yr uchaf ar draws y sector. Grŵp Llandrillo Menai (62%) oedd yr unig ddarparwr arall lle cafodd mwy na hanner y myfyrwyr eu dychwelyd fel siaradwyr Cymraeg ag unrhyw allu.

- Roedd gallu oddeutu chwarter (26%) y myfyrwyr i siarad Cymraeg yn anhysbys. Roedd y mwyafrif o'r rhai â gallu anhysbys i'w cael mewn dau ddarparwr, sef y Brifysgol Agored a Phrifysgol De Cymru.

**Ffigur C.1: Nifer y cofrestriadau gan fyfyrwyr o Gymru ag o leiaf 1 credyd wedi cael ei astudio yn Gymraeg, yn ôl gallu i siarad Cymraeg, 2023/24**




Disgrifiad: Siart bar yn dangos mai siaradwyr Cymraeg rhugl sydd fwyaf tebygol o astudio niferoedd uchel o gredydau yn Gymraeg, ond bod myfyrwyr â galluoedd eraill, gan gynnwys y rhai a gofnodwyd fel rhai sydd ddim yn siarad Cymraeg, yn astudio yn Gymraeg hefyd.

Data yn Nhabl 7a y llyfr gwaith sy'n cyd-fynd â'r adroddiad ac ar StatsCymru


- Fe wnaeth 2,735 o gofrestriadau gan siaradwyr Cymraeg rhugl hysbys astudio o leiaf 1 credyd yn Gymraeg yn 2023/24, sef 30% o gofrestriadau gan siaradwyr Cymraeg rhugl. Fe wnaeth ychydig dros un ymhob pump (21%) astudio o leiaf 40 o gredydau yn Gymraeg, tra bo 7% wedi astudio o leiaf 120 o gredydau yn Gymraeg.

- Roedd 8% o gofrestriadau gan siaradwyr Cymraeg yr oedd yn hysbys nad ydynt yn rhugl yn cynnwys o leiaf 1 credyd a astudiwyd trwy gyfrwng y Gymraeg yn 2023/24, tra bo 12% o'r rhai a oedd yn siaradwyr Cymraeg â gallu anhysbys wedi astudio o leiaf 1 credyd trwy gyfrwng y Gymraeg.

- Cafodd 1,255 o gofrestriadau gan fyfyrwyr a gofnodwyd fel rhai a oedd ddim yn siarad Cymraeg eu cofnodi fel cofrestriadau lle cafodd o leiaf 1 credyd ei astudio yn Gymraeg. Roedd hyn yn 4% o'r holl gofrestriadau ar gyfer y rhai nad oeddent yn siaradwyr Cymraeg. Fe wnaeth y mwyafrif llethol o'r cofrestriadau hyn astudio llai na 40 o gredydau yn Gymraeg. Mae hyn yn debygol o fod oherwydd cyfuniad o gofnodi data ar allu yn y Gymraeg yn anghywir a sut y mae'r agwedd cyfrwng Cymraeg ar rai modiwlau wedi cael ei chofnodi. Mae niferoedd y myfyrwyr a gofnodwyd fel rhai nad oeddent yn siarad Cymraeg ond a wnaeth astudio rhai

credydau yn Gymraeg wedi gostwng o'i gymharu â'r blynyddoedd diwethaf gan awgrymu bod ansawdd y data'n gwella.

**Ffigur C.2: Gallu myfyrwyr o Gymru a astudiodd o leiaf 1 credyd yn Gymraeg i siarad Cymraeg, 2023/24**




Disgrifiad: Roedd ychydig dros hanner y cofrestriadau gydag o leiaf 1 credyd wedi cael ei astudio yn Gymraeg yn gofrestriadau gan siaradwyr Cymraeg rhugl. Mae'r ganran hon yn cynyddu wrth i nifer y credydau yn Gymraeg gynyddu.

Data yn Nhabl 7a y llyfr gwaith sy'n cyd-fynd â'r adroddiad ac ar StatsCymru

- O'r rhai a astudiodd o leiaf 1 credyd yn Gymraeg, roedd rhaniad gweddol gyfartal rhwng cofrestriadau gan siaradwyr Cymraeg rhugl (54%) a chan fyfyrwyr â gallu arall i siarad Cymraeg.

- Mae 81% o'r cofrestriadau ag o leiaf 40 o gredydau wedi cael eu hastudio yn Gymraeg yn gofrestriadau gan siaradwyr Cymraeg rhugl, gyda 12% pellach yn siaradwyr Cymraeg nad ydynt yn rhugl. Mae'r 7% o gofrestriadau sy'n weddill yn bennaf gan fyfyrwyr a gofnodwyd fel rhai sydd ddim yn siarad Cymraeg.

- Ar gyfer y cofrestriadau hynny ag o leiaf 120 o gredydau wedi cael eu hastudio trwy gyfrwng y Gymraeg mae 88% yn siaradwyr Cymraeg rhugl, ac mae 6% o gofrestriadau'n dal i fod gan fyfyrwyr a gofnodwyd fel rhai sydd ddim yn siaradwyr Cymraeg.

## Adran D: Staff

Mae’r adran hon yn cwmpasu staff addysgu academaidd a pha un a ydynt yn gallu addysgu yn Gymraeg a pha un a ydynt wedi’u contractio i addysgu yn Gymraeg. Nid yw’r colegau addysg bellach a darparwyr amgen yn cyflwyno data i’r cofnod staff felly mae’r adran hon yn gyfyngedig i brifysgolion Cymru. Nid yw’r Brifysgol Agored wedi’i chynnwys ychwaith gan nad yw’n bosibl gwahanu’r data rhwng gwahanol wledydd y DU.

Nid yw staff ar gontractau annodweddiadol wedi’u cynnwys. Staff annodweddiadol yw’r rhai nad yw eu trefniadau gweithio’n barhaol, sydd â pherthnasoedd cyflogaeth cymhleth a/neu sy’n gweithio i ffwrdd o oruchwyliaeth y darparwr gwaith arferol.

Mae’r holl ffigyrau yn yr adran hon yn rhai Cyfwerth â Pherson Llawn (FPE), oni bai y nodir fel arall. Mae hyn yn golygu bod aelod o staff â mwy nag un contract neu weithgaredd wedi’i rannu rhwng y gweithgareddau hynny yn y data. Os oes gan aelod o staff gontract addysgu academaidd a chontract arall, yna dim ond y ffigwr FPE o’u contract(au) addysgu academaidd a gyfrifir. Cyfrifir y ffigyrau FPE yn seiliedig ar gontractau a oedd yn weithredol ar 1 Rhagfyr yn y flwyddyn academaidd berthnasol, e.e. 1 Rhagfyr 2023 ar gyfer blwyddyn academaidd 2023/24.

**Tabl D.1: Staff addysgu academaidd yn ôl pa un a ydynt yn gallu a/neu wedi'u contractio i addysgu yn Gymraeg, 2018/19 i 2023/24**

| | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Yn gallu addysgu yn Gymraeg** | **1,110** | **1,085** | **1,025** | **1,035** | **1,015** | **845** |
| Yn addysgu yn Gymraeg | 590 | 580 | 570 | 540 | 550 | 540 |
| Ddim yn addysgu yn Gymraeg | 340 | 345 | 300 | 360 | 385 | 245 |
| Gwybodaeth heb ei cheisio | 180 | 155 | 160 | 130 | 80 | 60 |
| **Ddim yn gallu addysgu yn Gymraeg** | **6,865** | **6,810** | **6,740** | **6,745** | **7,220** | **7,750** |
| Yn addysgu yn Gymraeg | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Ddim yn addysgu yn Gymraeg | 4,895 | 5,170 | 4,895 | 4,955 | 6,295 | 6,790 |
| Gwybodaeth heb ei cheisio | 1,970 | 1,640 | 1,845 | 1,790 | 925 | 955 |
| **Gwybodaeth heb ei cheisio** | **140** | **140** | **185** | **430** | **460** | **860** |
| Yn addysgu yn Gymraeg | 10 | 15 | 10 | 15 | 15 | 25 |
| Ddim yn addysgu yn Gymraeg | 55 | 40 | 50 | 170 | 205 | 460 |
| Gwybodaeth heb ei cheisio | 75 | 85 | 125 | 245 | 240 | 375 |
| **Pob gallu i addysgu yn Gymraeg** | **8,110** | **8,035** | **7,955** | **8,210** | **8,695** | **9,455** |
| Yn addysgu yn Gymraeg | 600 | 595 | 575 | 555 | 565 | 565 |
| Ddim yn addysgu yn Gymraeg | 5,290 | 5,555 | 5,245 | 5,485 | 6,885 | 7,500 |
| Gwybodaeth heb ei cheisio | 2,220 | 1,885 | 2,130 | 2,170 | 1,245 | 1,390 |

Disgrifiad: Mae nifer y staff sy'n gallu addysgu yn Gymraeg wedi bod ar duedd tuag i lawr yn y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, ni fu rhyw lawer o newid yn niferoedd y staff sydd wedi'u contractio i addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, gyda'r niferoedd yn aros yn sefydlog yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf ar ôl gostwng ychydig o 2018/19.

Data yn Nhabl 9 y llyfr gwaith sy'n cyd-fynd â'r adroddiad ac ar StatsCymru

- Fe wnaeth nifer y staff sy'n gallu addysgu yn Gymraeg yn nata 2023/24 ostwng yn sylweddol o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol. Er bod hyn yn barhad mewn tuedd gyffredinol, roedd maint y gostyngiad yn 2023/24 wedi'i gydgrynhoi i raddau helaeth ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant lle gwnaeth nifer y staff sy'n gallu addysgu yn Gymraeg ostwng 165 gyda chynnydd o faint tebyg yn y rhai yn y categori 'Gwybodaeth heb ei cheisio'. Roedd hyn yn gysylltiedig â newid yn sut y mae'r Brifysgol yn casglu'r data yma a disgwylir y bydd ansawdd y data yma'n gwella eto mewn blynyddoedd yn y dyfodol.

- Fe wnaeth nifer y staff addysgu sydd wedi'u contractio i addysgu yn Gymraeg aros ar yr un lefel yn 2023/24 o'i gymharu â 2022/23 a dim ond amrywiadau bychain a fu ers 2020/21.

- Roedd 64% o'r staff addysgu yr oedd yn hysbys eu bod yn gallu addysgu yn Gymraeg wedi'u contractio i addysgu yn Gymraeg yn 2023/24. Mae hyn yn uwch nag mewn blynyddoedd cynharach, er yr effeithir ar hyn eto gan y newid ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn sut y cafodd y gallu i addysgu yn Gymraeg ei gofnodi.

- Ar y cyfan mae 6% o'r staff addysgu wedi'u contractio i addysgu yn Gymraeg.

**Tabl D.2: Nifer y staff addysgu academaidd sydd wedi'u contractio i addysgu yn Gymraeg a'r nifer sy'n gallu addysgu yn Gymraeg yn ôl darparwr, 2023/24**

| Darparwr | Nifer y staff sy'n addysgu yn Gymraeg | Canran y staff sy'n addysgu yn Gymraeg | Nifer y staff sy'n gallu addysgu yn Gymraeg | Canran y staff sy'n gallu addysgu yn Gymraeg | Cyfanswm nifer y staff addysgu |
|---|---|---|---|---|---|
| Prifysgol Aberystwyth | 120 | 20% | 155 | 26% | 585 |
| Prifysgol Bangor | 165 | 22% | 205 | 27% | 745 |
| Prifysgol Metropolitan Caerdydd | 25 | 3% | 50 | 6% | 855 |
| Prifysgol Caerdydd | 130 | 4% | 185 | 6% | 3,065 |
| Prifysgol Abertawe | 60 | 4% | 70 | 5% | 1,320 |
| Prifysgol De Cymru | 25 | 1% | 75 | 4% | 1,785 |
| Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant | 35 | 4% | 95 | 11% | 875 |
| Prifysgol Wrecsam | 0 | 1% | 15 | 6% | 225 |
| **Pob un** | **565** | **6%** | **845** | **9%** | **9,455** |

Disgrifiad: Prifysgol Bangor oedd â'r nifer uchaf o staff a oedd wedi'u contractio i addysgu ac yn gallu addysgu yn Gymraeg, gyda Phrifysgol Caerdydd yn dilyn wedyn.

Data yn Nhabl 10 y llyfr gwaith sy'n cyd-fynd â'r adroddiad ac ar StatsCymru

- Prifysgol Bangor hefyd oedd â'r gyfran uchaf o staff addysgu yr oedd yn hysbys eu bod yn gallu addysgu yn Gymraeg ar 27%. Prifysgol Aberystwyth oedd â'r gyfran uchaf nesaf gyda 26% o staff yn gallu addysgu yn Gymraeg.

- Prifysgol Bangor hefyd oedd â'r gyfran uchaf (22%) o staff addysgu academaidd a oedd wedi'u contractio i addysgu yn Gymraeg, gyda Phrifysgol Aberystwyth yn dilyn wedyn (20%). Nid oedd gan unrhyw ddarparwr arall fwy na 4% o staff addysgu wedi'u contractio i addysgu yn Gymraeg.

**Tabl D.3: Canolfannau costau staff addysgu sy'n addysgu yn Gymraeg, 2023/24**

| Canolfan Gostau | Yn addysgu yn Gymraeg | Ddim yn addysgu yn Gymraeg | Gwybodaeth heb ei cheisio | Pawb |
|---|---|---|---|---|
| Meddygaeth, deintyddiaeth ac iechyd | 85 | 1,780 | 215 | 2,080 |
| Amaethyddiaeth, coedwigaeth a gwyddor filfeddygol | 10 | 80 | 5 | 95 |
| Gwyddorau biolegol, mathemategol a ffisegol | 25 | 850 | 65 | 940 |
| Peirianneg a thechnoleg | 10 | 915 | 130 | 1,055 |
| Pensaernïaeth a chynllunio | 0 | 115 | 10 | 130 |
| Gweinyddu ac astudiaethau busnes | 15 | 905 | 160 | 1,080 |
| Astudiaethau cymdeithasol | 65 | 1,025 | 110 | 1,205 |
| Y dyniaethau, astudiaethau seiliedig ar iaith ac archaeoleg | 145 | 610 | 55 | 810 |
| Dylunio, y celfyddydau creadigol a pherfformio | 30 | 410 | 495 | 930 |
| Addysg | 160 | 745 | 125 | 1,025 |
| Gwasanaethau academaidd | 15 | 45 | 15 | 80 |
| Gweinyddu a gwasanaethau canolog, cyfleusterau staff a myfyrwyr | 0 | 20 | 5 | 25 |
| Y safle | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Preswylfeydd ac Arlwyo | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Pob un** | **565** | **7,500** | **1,390** | **9,455** |

Disgrifiad: y ddwy ganolfan gostau â'r niferoedd uchaf o staff yr oedd yn hysbys eu bod yn addysgu yn Gymraeg oedd Addysg a'r Dyniaethau, astudiaethau seiliedig ar iaith ac archaeoleg.

Data yn Nhabl 11 y llyfr gwaith sy'n cyd-fynd â'r adroddiad ac ar StatsCymru

- Mae ychydig dros hanner (54%) y staff y mae'n hysbys eu bod yn addysgu yn Gymraeg yn y canolfannau costau Addysg, a'r Dyniaethau, astudiaethau seiliedig ar iaith ac archaeoleg.

# Gwybodaeth am ansawdd a methodoleg

Gweler y ddogfen Ansawdd a methodoleg sy'n cyd-fynd â'r adroddiad am wybodaeth fanwl.

## Datganiad cydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau

Caiff ein harfer ystadegol ei reoleiddio gan y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau (OSR). OSR sy'n pennu'r safonau dibynadwyedd, ansawdd a gwerth yn y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau y dylai'r holl gynhyrchwyr ystadegau swyddogol ymlynu wrtho.

Caiff ein holl ystadegau ni eu cynhyrchu a'u cyhoeddi yn unol â nifer o ddatganiadau a phrotocolau i wella dibynadwyedd, ansawdd a gwerth. Caiff y rhain eu nodi yn Natganiad Cydymffurfio Medr â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau.

Mae'r ystadegau swyddogol hyn yn dangos y safonau a ddisgwylir o ran dibynadwyedd, ansawdd a gwerth yn y ffyrdd canlynol.

### Dibynadwyedd

Cynhyrchwyd yr ystadegau hyn yn unol â Datganiad Cydymffurfio Medr a'n polisi ar weld ystadegau swyddogol cyn eu rhyddhau.

### Ansawdd

Daw'r data o gofnodion Myfyrwyr a Staff HESA sy'n casglu data gan ddarparwyr addysg uwch. Pan gyflwynir y data rhaid iddo fodloni rhai rheolau dilysu penodol. Pan fo'r ystadegau'n cael eu cynhyrchu fe gyflawnir gwiriadau ansawdd gan yr ystadegwyr.

Mae'r ddogfen Ansawdd a Methodoleg sy'n cyd-fynd â'r adroddiad yn darparu rhagor o wybodaeth am faterion ansawdd.

### Gwerth

Cynhyrchir yr ystadegau hyn i ddarparu mewnwelediad i lefel y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y sector addysg uwch yng Nghymru, a gallu myfyrwyr a staff i siarad Cymraeg.

## Newid yn y statws ystadegau achrededig

Arferai'r ystadegau hyn gael eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru fel Ystadegau Gwladol (a adwaenir bellach fel Ystadegau Swyddogol Achrededig). Gan bod yr ystadegau bellach yn cael eu cyhoeddi gan sefydliad newydd, mae'r statws Ystadegau Swyddogol Achrededig wedi cael ei ddileu dros dro.

Bydd OSR yn asesu'r prosesau sydd gan Medr fel cynhyrchydd ystadegau swyddogol. Bydd OSR yn asesu a yw'r ystadegau'n ateb y gofynion ar gyfer Ystadegau Swyddogol Achrededig.

## Ystadegau cysylltiedig

Ceir dolenni i ddatganiadau blaenorol yn y gyfres hon ar llyw.cymru.

Mae Sta/Medr/06/2025: Addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith a dysgu cymunedol: Awst 2023 i Orffennaf 2024 yn cynnwys gwybodaeth am y gweithgareddau a addysgir yn Gymraeg a sgiliau Cymraeg dysgwyr mewn addysg bellach, prentisiaethau a dysgu oedolion yn y gymuned.

Mae Sta/Medr/07/2025: Mesurau deilliannau dysgwyr ar gyfer prentisiaethau, Awst 2023 i Orffennaf 2024 yn cynnwys gwybodaeth am ddeilliannau prentisiaethau yn ôl cyfrwng astudio.

Mae Ystadegau blynyddol ar gyfer y gweithlu addysg yng Nghymru yn cynnwys gwybodaeth am sgiliau Cymraeg staff mewn ysgolion, addysg bellach ac yn y sector addysg oedolion.

## Gwybodaeth gyswllt

Rydym yn croesawu unrhyw adborth ar unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn.

Gellir cyfeirio adborth, cwestiynau, a cheisiadau am ragor o ddata trwy’r e-bost i: YstadegauAU@medr.cymru

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru

2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**